**CYNGOR BRO LLANGELER-18:05:2015**

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Mai 18fed 2015 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **05/15 PRESENNOL:** Cynghorwyr: Adrian Thomas[Cadeirydd], Jamie Ayres, John Crossley, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Caroline Roberts. John Wigley. Clerc – Stella Jones
   **HEFYD YN BRESENNOL:** Cyfieithydd, aelod o'r cyhoedd

2. **05/15 HEDDLU:** Ymddiheiriad

3. **05/15 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Delyth Evans, Dilwyn Smith, K Howell, Heddlu

4. **05/15 COFNODION:**derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Ebrill 27ain 2015 a'u cael yn gywir
   Cynigydd – Cyng. B Jones
   Eilydd – Cyng. C Jones

5. **05/15 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim

6. **05/15 MATERION YN CODI :**
   12.i.01/14. b) 'Audio Trail' – nododd Cyng C Roberts oherwydd anhwylder ei bod heb gael cyfle i drefnu cael lluniau
   12.i.c) Pwyllgor T Llew Jones – Bwrdd Coffa – Clerc wedi derbyn caniatâd gan y Cyngor Sir i osod y plac ar y safle ym Mhentrecwrt ac wedi derbyn y gwaith papur angenrheidiol – rhain i'w pasio ymlaen i'r pwyllgor.
   6.i. Pwyllgor y Parc – Clerc wedi derbyn dogfennau gan Eifion Davies – y cyfreithiwr i edrych dros rhain.
   12.vii.04/15 –eitem coffa bod yn Gadeirydd – i'w drafod dan eitem 10 [Materion Angen Trafodaeth]

7. **05/15 GOHEBIAETH:**
   i. CSG – Trwydded Gweithiau Stryd – [Bwrdd Coffa T Llew Jones]
   ii. GIG Cymru – Sgwrs Iach [dyddiadau a lleoliad sesiynau] – *nodwyd*
   iii. NOVUS – Arddangosfa Gyhoeddus Fferm Solar Blaen Bowi – llyfr – *astudiwyd a cytunwyd y dylid ysgrifennu a gofyn am iddynt blannu coed ar un rhan o'r cynllun i'w gorchuddio o olwg yr hewl*
   iv. e-bost – Graham Thompson – ciosg coch Pentrecagal – *cylchlythyrwyd – roedd Cyng J Wigley wedi hysbysu BT bod y drws bron a thorri ffwrdd a gofyn iddynt ailosod drws newydd neu ei drwsio - dwedwyd wrtho na fyddent yn barod i wneud hynny. Trafodwyd e-bost Mr Thompson ac wedi tipyn o bwyso a mesur cytunwyd na fyddai yn ymarferol yn ariannol i'w fabwysiadau.*
   v. e-bost – ULlC – Diddymiad o'r Gwrthran Papur i'r Drwydded Yrru Cerdynffoto - *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   vi. Copïau o'r Les i Glwb Pêl Droed – *trafodwyd dan eitem 6.*
   vii. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd*
   viii. e-bost– ULlC – Modiwlau hyfforddiant am Mis Mehefin. – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   ix. e-bost –CSG – Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned Cyfarfod 26/5/2015 am 6.15yh yn Neuadd y Sir – *Cyng J Crossley i fynychu.*
   x. e-bost – CSG – 'Sut mae tlodi yn effeithio ar Sir Gaerfyrddin wledig?' – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xi. e-bost – Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol – Ebrill 2015 – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xii. e-bost – Stephen Briggs – Amgylchion Melin Allcafan – *cylchlythyrwyd – dwedodd y Clerc ei bod wedi gwneud ymholiadau i Adran Gynllunio CSG dwedwyd bod caniatâd wedi ei roi nôl yn 2010 roedd un o'r adran gynllunio wedi bod allan yn edrych ar y gwaith oedd yn cael ei wneud ac roedd o'r farn nad oedd dim o'i le.*
   xiii. e-bost – ULlC – Cynllunio Cadarnhaol: Bil Cynllunio (Cymru) – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
   xiv CSG – Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – Cais am Wybodaeth – *Clerc wedi cyflwyno y wybodaeth angenrheidiol*
   xv. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 04.05.2015 – 08.05.2015 – *cylchlythyrwyd*
   xvi.e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 11.05.2015 – 15.05.2015 – *cylchlythyrwyd*
   xvii. Menter Gorllewin Sir Gâr – Defnydd o'r Parc – *trosglwyddwyd ymlaen i Bwyllgor y Parc*

## 8. 05/15 CYNLLUNIO

**Cais Ymgynghori llawn**

W/31916 – A Hatley, Deri Deg, Felindre SA44 5XG – adeiladu Ystafell Haul a Decin – *dim barn*
W/31932 – G Vandewaetere, Parc Ddol, Velindre SA44 5YF – materion ar gadw ar gyfer tŷ sengl gan ystyried graddfa, ymddangosiad, dyluniad a chynllun tirwedd – *nodi i'r Sir taw tir gardd wedi llenwi a rwbel yw'r safle*
W/31999 –Paul Watts, Bryn Tegid, Velindre SA44 5XP – tŷ-allan i storio peiriannau amaethyddol a hobïau. Canopi i'r ochr ar gyfer wyna – *dim barn*

**9. 05/15 MATERION ARIANNOL**

***a.*** Derbyn Cyfrifon y Cyngor wedi Awdit Mewnol – derbyniwyd yn unfrydol
***b.*** Anfonebau
i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 18/05/2015 ........................................ £80.10
ii .HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 18/05/15........................................ £12.25
[ rhoddwyd caniatád i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn ]

___________________ Cadeirydd ___________________ Dyddiad

iii. Trywydd – Cyfarfod Chwefror 18/05/2015..........£60.90
iv. PRO-FORMA – Plac Cofiadwy*[Camwy, Felindre]* ..........£363.90
v. DŴR CYMRU*[Cwmins]* ..........£16.41
vi. SLCC [*Aelodaeth*] ..........£88.00
vii. ANN JAMES [*Awdit o gyfrifon 2014/15*] ..........£75.00

Arian yn y Banc ar 14/04/2015..........£8,232.13

***c.* Credyd –**
i. RHENT CWMINS WAUNGILWEN ..........£480.00
ii.RHENT CWMINS CWMHIRAETH ..........£250.00
iii. PRAESEPT ..........£10,126.56

***d.* Cais am Gefnogaeth Ariannol**
Dim

**10. 05/15 ADRODDIAD PWYLLGOR** –
Dim

**11. 05/15 MATERION ANGEN TRAFODAETH**
i. Cadwyn y Cadeirydd – dangosodd Cyng J Wigley dri sampl gwahanol lliw oedd wedi cael gan y cwmni hefyd dangosodd y Clerc Rhuban Cyn Gadeirydd cytunwyd cael un o rhain i'r cyn gadeiryddion sy'n aelodau o'r Cyngor ar hyn o bryd.
ii. Teils serameg ar wal y Parc yn Nrefach – Catrin Howell wedi cynnig ail wneud a gosod y teils sydd wedi cwympo lawr – cytunwyd derbyn y cynnig

**12. 05/15 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:**
i. Cyng J Wigley – a) tipio anghyfreithlon ar rhiw Berfe – *rhoi gwybod i CSG*
b) bin ar bwys yr arosfan bws – angen ei osod yn fwy cadarn, dim ond cerrig sy'n ei ddal – *rhoi gwybod i CSG*.
c) clawdd yn tyfu mas i'r hewl am Cwmhiraeth – *Clerc i siarad a'r Cynghorydd Sir K Howell*
ch) dŵr ar yr hewl ar ôl glaw
d) a ydy'r cygnor yn dathlu Owain Glyndwr – *dim ymateb*
ii. Cyng C Jones – sedd Cwmpengraig nôl yn ei lle ond mae'r coed dal heb ei torri
iii. Cyng J Crossley – tipio anghyfreithlon wedi bod tu allan i'w gartref

**CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Mehefin 29fed 2015, am 7.30y.h yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 y.h

____________________ Cadeirydd ____________________ Dyddiad